Helo, fy enw i yw Louise ac rwy'n un o Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr tîm Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr. Mae fy swydd yn cynnwys cysylltu â chyflogwyr i ddod o hyd i gyfleoedd gwaith a helpu ein cwsmeriaid i ddod o hyd i swyddi gwag addas a gwneud cais am waith.

Ers y cyfyngiadau symud, mae'r tîm o Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr wedi gorfod newid y ffordd yr ydym yn cefnogi ein cwsmeriaid pan nad ydym yn gallu cwrdd â nhw na'n cyflogwyr. Rydym wedi dechrau gweithio gyda'n gilydd fel tîm cryfach sy'n canolbwyntio ar gynorthwyo pobl sy'n dal i chwilio am gyfleoedd fel gweithwyr allweddol a swyddi eraill sydd ar gael ar hyn o bryd. Rydym wedi symud i gasglu swyddi gwag yn ganolog a'u dosbarthu i'n holl gwsmeriaid a'n partneriaid mewn Bwrdd Swyddi dyddiol. Mae wedi bod yn ffordd wych o anfon gwybodaeth allan a chadw mewn cysylltiad â'n cwsmeriaid yn ddyddiol.

Mae gweithio gartref wedi bod yn heriol ar brydiau, ond gyda'n gilydd fel tîm, rydym ni wedi gallu codi uwchlaw'r rhwystrau hyn i ymateb yn llawn ir' heriau ac rydym ni'n parhau i ddarparu gwasanaeth rhagorol.

15 wythnos o ddechrau'r cyfyngiadau symud ac rydym ni wedi bod yn brysur yn gweithio gartref yn helpu mwy na 60 o bobl leol i gael gwaith.

Mae wedi bod yn wych gallu parhau i gefnogi busnesau gyda'u recriwtio, cefnogi ceiswyr gwaith i chwilio am swydd a darparu hyfforddiant ar-lein i gymaint ohonoch.

Rydym yn edrych ymlaen at gael dychwelyd i'r swyddfa, i gwrdd â cheiswyr gwaith a chyflogwyr, ond am nawr, rydym ni a'n plant/teuluoedd y tu ôl i'r llenni yn cadw'r rhaglen i fynd i gefnogi pobl Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y cyfnod hwn.